# RHEOLAU NEWYDD YR WYBODAETH I CHI

- Os ydych chi'n ailgylchu'n barod, mae'n annhebygol y bydd y rheolau newydd yn effeithio arnoch chi
- Y gred yw bod modd ailgylchu tua 80% o holl wastraff y Cyngor
- O dan y rheolau newydd, caiff aelwydydd roi 2 fag dy 60 litr neu fin ar olwynion (rhaid i'r caead gau'n llawn) allan.
- P'un ai'ch bod chi'n rhoi dau fag 60litr allan yng Nghwm Rhondda neu fin 120litr yng Nghwm Cynon/Taf-elái, yr un yw'r terfyn.
- Dyw'r Cyngor ddim yn dosbarthu biniau 240litr mwyach, a byddwn ni'n rhoi bin 120litr safonol i unrhyw breswylydd sy'n gofyn am fin newydd i gymryd lle hen fin. Byddai'n rhy gostus inni fynd o gwmpas i gasglu'r biniau a rhoi bin 120litr yn eu lle. Byddwn ni'n cael gwared â PHOB bin 240litr yn raddol.
- Dim ond fel y cam olaf y byddwn ni'n rhoi dirwyon i'r rheiny sy'n gwrthod ailgylchu byth-a-hefyd.
- Mae cyfleuster chwilio A-Y hwylus ar ein gwefan www.rctcbc.gov.uk/ailgylchu sy'n nodi'r eitemau mae modd/does dim modd eu hailgylchu, ac i ble bydd eisiau i chi fynd â nhw.
- Mae Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned ar agor o 8.00 y bore tan 7.30 yr hwyr, 7 diwrnod yr wythnos (Mawrth – Tachwedd). Mae'r rhain yn derbyn deunyddiau nad oes modd eu casglu wrth ymyl y ffordd, megis matresi, eitemau trydan, pren, batrîs, dalennau hir o bolystyren, teganau plastig yr ardd, a rhagor.
- Mae Canolfannau Ailgylchu yn y Gymuned YN derbyn gwastraff nad oes modd ei ailgylchu, ond bydd hawl gan staff i edrych mewn bagiau a bydd gofyn i chi ddidoli unrhyw eitemau mae modd eu hailgylchu cyn derbyn y bagiau.
- Fyddwn ni ddim yn goddef achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon yn Rhondda Cynon Taf, ac os gwnewch chi hynny, byddwch chi'n cael eich dal ac yn wynebu dirwy fawr.
- Os ydy'ch amgylchiadau personol chi yn ei gwneud hi'n anodd i chi gadw at y terfyn pob pythefnos, cysylltwch â ni er mwyn inni weld beth allwn ni'i wneud i'ch cynorthwyo chi. Rydyn ni'n addo bod mor hyblyg ag sy'n bosibl mewn amgylchiadau diamau, felly cysylltwch â ni ar unwaith am hyn – ebost gwasanaethauigwsmeriaid@rhondda-cynon-taf.gov.uk neu ffonio 01443 425001

**MAE'R DEWIS YN GLIR. RCTCBC.GOV.UK/AILGYLCHU**

RHONDDA CYNON TAF